Fframwaith Dangosyddion Integreiddio 2019 y Swyddfa Gartref

Argraffiad Cymraeg

© Hawlfraint y Goron 2019

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Fframwaith Dangosyddion Integreiddio 2019 y Swyddfa Gartref

Carolyne Ndofor-Tah, Uned Mudo a Dadansoddi'r Ffin y Swyddfa Gartref

Alison Strang, Prifysgol Brenhines Margaret, Caeredin

Jenny Phillimore, Prifysgol Birmingham

Linda Morrice, Prifysgol Sussex

Lucy Michael, Prifysgol Ulster

Patrick Wood, Uned Mudo a Dadansoddi'r Ffin y Swyddfa Gartref

Jon Simmons, Pennaeth Uned Mudo a Dadansoddi'r Ffin y Swyddfa Gartref

Gyda chyfraniadau gan

Sandra Pertek, Sefydliad dros Ymchwil i mewn i Amrywiaeth Uwch, Prifysgol Birmingham (Theori Newid a chanllawiau cysylltiedig)

Magda Borkowska, Prifysgol Essex

Sian Sanders, Caerdydd a Bro Morgannwg

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i'r bobl hynny o Sefydliadau Anllywodraethol (NGOs), Awdurdodau Lleol, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, Awdurdod Llundain Fwyaf (GLA), Gweinyddiaethau Datganoledig ac Adrannau'r Llywodraeth a ddarparodd adborth ysgrifenedig a llafar ar fframwaith Dangosyddion Integreiddio'r Swyddfa Gartref, yn ogystal â'r ffoaduriaid hynny a gyfrannodd at y gwaith o ddatblygu'r fframwaith yn ein gweithdai.

Diolch i gydweithwyr yng Nghyfarwyddiaeth Adsefydlu, Cymorth i Geiswyr Lloches ac Integreiddio'r Swyddfa Gartref, Swyddfa dros Ddiogelwch a Gwrthderfysgaeth (OSCT) a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) am eu cyfraniad a chydweithwyr yn Uned Mudo a Dadansoddi'r Ffin y Swyddfa Gartref, yn enwedig Katharine Beaney, Maria Calem, Joseph Coley, Kerry Lee, Emily O'Neill, Zoe Pellatt, Eveie Shaw a'n cyn-gydweithwyr Laura Broomfield, Jenny Cann, Carrie Hough ac Anna Ponomarenko.

Safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw'r safbwyntiau hynny o anghenraid yn cael eu harddel gan y Swyddfa Gartref (ac nid ydynt ychwaith yn adlewyrchu polisi'r llywodraeth).

Ariannwyd ychydig o'r gwaith gan Gronfa Lloches, Mudo ac Integreiddio'r Undeb Ewropeaidd.

Mae cynnwys y cyhoeddiad hwn yn cynrychioli barn yr awdur a'i gyfrifoldeb ef/hi yn unig. Nid yw'r Comisiwn Ewropeaidd yn derbyn cyfrifoldeb am ddefnydd y gellir ei wneud o'r wybodaeth sydd ynddo.

Dylid cyfeirio gohebiaeth ynghylch yr adroddiad hwn a dogfennau cysylltiedig at: indicatorsofintegration@homeoffice.gov.uk

Cynnwys

Adran 1
Cyflwyno'r cefndir 8

1. Cyflwyno'r cefndir 9

Adran 2
Beth ydym yn ei olygu gydag integreiddio? 10

2. Beth ydym yn ei olygu gydag integreiddio? 11

Adran 3
Fframwaith Dangosyddion Integreiddio'r Swyddfa Gartref 12

3. Fframwaith Dangosyddion Integreiddio'r Swyddfa Gartref 13

Adran 4
Strwythur y fframwaith 14

4. Strwythur y fframwaith 15

4.1 Dynodwyr a Moddau 16

4.2 Cysylltiadau Cymdeithasol 16

4.3 Hwyluswyr 17

4.4. Seiliau 18

Adran 5
Egwyddorion allweddol sy'n sail i'r fframwaith 19

5. Egwyddorion allweddol sy'n sail i'r fframwaith 20

5.1 Mae integreiddio yn amlddimensiynol 20

5.2 Mae integreiddio yn amlgyfeiriol 20

5.3 Mae integreiddio yn gyfrifoldeb ar y cyd 21

5.4 Mae integreiddio yn benodol ei gyd-destun 21

Adran 6

Sut i ddefnyddio'r fframwaith Dangosyddion Integreiddio 22

6. Sut i ddefnyddio'r fframwaith Dangosyddion Integreiddio 23

6.1 Dangosyddion canlyniadau ac arfer da 23

6.2 Dewis beth i'w fesur 23

6.3 Mesur newid 24

6.4 Gwneud cymariaethau 24

6.5 Cydnabod rhwystrau i integreiddio 25

6.6 Defnyddio'r pecyn cymorth dangosyddion 26

Adran 7

Dangosyddion Integreiddio 2019 27

7. Dangosyddion Integreiddio 2019 28

7.1 Gwaith 28

7.2 Addysg 30

7.3 Tai 32

7.4 Iechyd a gofal cymdeithasol 34

7.5 Hamdden 38

7.6 Rhwymau cymdeithasol - gyda'r rheiny y rhannwch ymdeimlad o hunaniaeth 39

7.7 Pontydd cymdeithasol - gyda phobl o gefndiroedd gwahanol 40

7.8 Cysylltiadau cymdeithasol - gyda sefydliadau 42

7.9 Iaith a chyfathrebu 44

7.10 Diwylliant 46

7.11 Sgiliau Digidol 48

7.12 Diogelwch 50

7.13 Sefydlogrwydd 52

7.14 Hawliau a chyfrifoldebau 54

Adran 8

8. Cyfeiriadau 57

RHAGAIR

Rhagair

Mae integreiddio llwyddiannus yn helpu pobl i wireddu eu potensial llawn. Mae'n ei gwneud hi'n haws iddynt gael gafael ar wasanaethau, yn lleihau anghydraddoldebau addysgiadol ac iechyd, yn eu helpu i ddod o hyd i waith ac, yn ei hanfod, yn sail i gydlyniant cymunedol a grymusedd cymunedol.

Er bod integreiddio yn anodd ei ddiffinio, gall ei absenoldeb fod yn amlwg iawn.

Wrth ddatblygu'r fframwaith Dangosyddion Integreiddio, rydym yn cydnabod bod integreiddio yn **amlddimensiynol** ac y gall ddibynnu ar ystod eang o ffactorau. Mae integreiddio yn cwmpasu mynediad at adnoddau, megis addysg a gofal iechyd, cyfleoedd gwaith a hamdden, yn ogystal â chysyniadau ehangach megis cymysgu cymdeithasol.

Rydym hefyd yn cydnabod bod gwir integreiddio yn **amlgyfeiriol**. Mae integreiddio'n llwyddiannus yn cynnwys amrywiaeth eang o unigolion, asiantiaid a rhanddeiliaid; ni all yr un sefydliad, waeth pa mor abl, integreiddio pobl ar ei ben ei hun.

Mae integreiddio hefyd yn dibynnu ar bawb yn **cymryd cyfrifoldeb** am eu cyfraniad eu hunain, gan gynnwys preswylwyr sydd newydd gyrraedd, cymunedau sy'n derbyn a'r llywodraeth ar bob lefel. Yn olaf, mae integreiddio yn **benodol ei gyd-destun** ac mae angen iddo gael ei ddeall a'i gynllunio mewn perthynas â lle, amser a pherson penodol.

Bwriad y fframwaith hwn yw bod yn adnodd ar gyfer ymarferwyr integreiddio ar bob lefel, gan gynnig iaith gyffredin ar gyfer deall, cynllunio, monitro a mesur integreiddio, a chefnogi gwasanaethau integreiddio, gwell, sydd wedi eu teilwra fwy. Mae wedi cael ei ddatblygu ar y cyd ag academyddion a gyda mewnbwn gan sefydliadau mudo, y sector gwirfoddol, llywodraethau lleol a chenedlaethol, ac, yn bwysicach, y mudwyr eu hunain.

Drwy ddwyn yr holl agweddau hyn ar integreiddio llwyddiannus ynghyd, rydym yn gobeithio y bydd y rhai hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol i helpu mudwyr yn gallu ystyried sut y gallant gyfuno adnoddau sydd ar gael gyda phrosesau a chanlyniadau gwell, mwy cost-effeithiol. Amcan y fframwaith hwn yw helpu sefydliadau i gymryd ymagwedd strwythuredig ond hyblyg at eu strategaethau ac ymyriadau. Ein nod yw peidio ag ymyrryd - nid ydym yn honni ein bod yn gwybod mwy na'r bobl hynny ar reng flaen integreiddio - ond cynnig arweiniad ac offer lle bo angen, a chefnogi rhannu arfer da.

Yn anad dim, rydym yn cydnabod bod integreiddio a wnelo â phobl. Mae Prydain yn gymdeithas amlddiwylliannol lwyddiannus. Ers cenedlaethau, mae pobl o bob cwr o'r byd wedi dod yma i ddechrau bywydau newydd, ac mae eu presenoldeb wedi gwneud y DU yn lle hynod gyfoethocach a mwy amrywiol.

Ein gobaith yw, y bydd y fframwaith hwn yn helpu'r rhai hynny sy'n dewis gwneud eu cartref yn y wlad hon, i ddatgloi eu potensial eu hunain a gwireddu pob cyfle sydd gan y Deyrnas Unedig i'w gynnig iddynt.

Gwir Anrh Caroline Nokes AS
Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo

ADRAN 1

Cyflwyno'r cefndir

1. Cyflwyno'r cefndir

Mae'r fframwaith Dangosyddion Integreiddio wedi cael ei ddatblygu gan y Swyddfa Gartref gydag ymgynghori gyda, a mewnbwn gan adrannau eraill y llywodraeth, awdurdodau lleol, Partneriaethau Mudo Strategol rhanbarthol, sefydliadau anllywodraethol (NGOs) a darparwyr gwasanaeth lleol o bob un o bedwar rhanbarth y DU, a gan ffoaduriaid eu hunain.

Gellir defnyddio'r fframwaith hwn i ategu amrywiaeth eang o strategaethau a phrosiectau ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys strategaethau integreiddio lleol a chenedlaethol. Yn fwyaf nodedig, mae'r fframwaith Dangosyddion Integreiddio yn ategu'r 'Integrated Communities Strategy Green Paper' yn Lloegr (Llywodraeth EM, 2018a), a, lle bo'n berthnasol, yn cyd-fynd â chanlyniadau strategaethau eraill y llywodraeth megis y fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus a 'Strategaeth Ddigidol y DU' (Yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2017). Gan fod integreiddio yn fater polisi datganoledig yn y DU, mae'r fframwaith hefyd wedi cael ei ddatblygu gyda mewnbwn gan gynrychiolwyr o weinyddiaethau datganoledig ac mae'n cydnabod eu strategaethau datblygedig megis y 'New Scots: Refugee Integration Strategy 2018 to 2022' yn yr Alban (Llywodraeth yr Alban, 2018).

Nod fframwaith Dangosyddion Integreiddio'r Swyddfa Gartref yw ceisio llywio'r gwaith o gynllunio, monitro a gwerthuso prosiectau integreiddio. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ymagwedd strwythuredig at integreiddio mewn ystod o gyd-destunau lleol a chenedlaethol a fframwaith yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer datblygu ymyriadau. Mae'r adroddiad yn helpu i ddiffinio sut y gall ymarferwyr fesur **sut beth yw da** mewn perthynas â mesur cynnydd tuag at integreiddio dros amser. Gall fod yn sail i gyflawni nodau strategol ehangach drwy gynnig fframwaith sy'n cynrychioli'r dystiolaeth ddiweddaraf am arfer gorau a beth sy'n gweithio, a all lywio **sut** y cyflawnir nodau integreiddio yn ymarferol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn darparu dangosyddion argymelledig y gall ymarferwyr a swyddogion polisi eu defnyddio lle bo'n briodol i fesur canlyniadau mentrau.



ADRAN 2

Beth ydym yn ei olygu gydag integreiddio?

2. Beth ydym yn ei olygu gydag integreiddio?

Amlinellodd Strategaeth Cymunedau Integredig y Llywodraeth weledigaeth ar gyfer integreiddio a diffiniodd hyn fel *'cymunedau ble mae pobl, beth bynnag eu cefndir, yn byw, gweithio, dysgu a chymdeithasu gyda'i gilydd, yn seiliedig ar hawliau, cyfrifoldebau a chyfleoedd a rennir'*. Mae'r fframwaith Dangosyddion Integreiddio yn helpu i adnabod y prosesau a'r newidiadau ymarferol sy'n cyfrannu at integreiddiad unigolion a chymunedau. Nod yr adroddiad hwn yw darparu canllaw ac offer i adnabod a mesur y ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at brosesau integreiddio, ac yn sgil hynny helpu sefydliadau i ddylunio strategaethau mwy effeithiol.

Mae gan y term integreiddio sawl ystyr mewn cyd-destunau gwahanol. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag integreiddio fel proses amlgyfeiriol sy'n cynnwys sawl newid gan gymunedau ar fin cyrraedd ac sy'n croesawu, amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddir yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Mae integreiddio yn **amlddimensiynol** - yn dibynnu ar sawl ffactor sy'n cwmpasu mynediad at adnoddau a chyfleoedd yn ogystal â chymysgu cymdeithasol.
- Mae integreiddio yn **amlgyfeiriol** - yn cynnwys addasiadau gan bawb yn y gymdeithas.
- Mae integreiddio yn dibynnu ar bawb yn **cymryd cyfrifoldeb** am eu cyfraniad eu hunain gan gynnwys newydd-ddyfodiaid, cymunedau sy'n derbyn a'r llywodraeth ar bob lefel.
- Mae integreiddio yn **benodol ei gyd-destun** ac mae angen iddo gael ei ddeall a'i gynllunio mewn perthynas â'i gyd-destun penodol ac o fewn amserlen unigryw.

ADRAN 3

Fframwaith Dangosyddion Integreiddio'r Swyddfa Gartref

3. Fframwaith Dangosyddion Integreiddio'r Swyddfa Gartref

Yn hanesyddol yn y DU, mae prosiectau integreiddio wedi canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o adsefydlu ffoaduriaid neu fudwyr eraill. Datblygwyd fersiwn flaenorol o'r fframwaith hwn yn 2004 (Ager & Strang, 2004) gyda ffocws penodol ar integreiddiad ffoaduriaid ac yn sail iddo roedd ymchwil a oedd yn cynnwys trawstoriad o ffoaduriaid, llu o gymunedau, cymdeithasau sifil, academyddion, y llywodraeth leol a chanolog yn ogystal â llenyddiaeth academaidd a pholisi rhyngwladol. Fodd bynnag, defnyddiwyd y fframwaith gwreiddiol mewn ystod lawer ehangach o gyd-destunau integreiddio lleol, cenedlaethol a rhyngwladol na fwriadwyd yn wreiddiol.

Mae'r fframwaith newydd hwn yn adeiladu ar fframwaith 2004, ac yn ei ddisodli. Nod y Dangosyddion Integreiddio 2019 yma yw bod yn arf ar gyfer helpu i gynllunio ymyriadau integreiddio ar lefel leol a chenedlaethol, a hybu a mesur integreiddio mewn ystod eang o gyd-destunau amrywiol. Gellir defnyddio'r set o ddangosyddion ar gyfer mesur profiadau unrhyw grŵp o bobl y mae eu hintegreiddiad i gymunedau neu gymdeithas o bwys. Mae p'un a yw integreiddio yn nod angenrheidiol neu ddymunol ar gyfer grŵp penodol, fodd bynnag, yn fater i ddefnyddwyr polisi neu ymarferol y ddogfen hon.

Mae swyddogion polisi, ymarferwyr ac academyddion wedi defnyddio'r fframwaith Dangosyddion Integreiddio cyntaf y Swyddfa Gartref yn eang ers ei gyhoeddi yn 2004. Mae'r fersiwn newydd hon wedi elwa o gorff cynyddol o ymchwil ac arbenigedd. Yn dilyn adborth gan randdeiliaid polisi, ymarfer ac academaidd allweddol, datblygodd **gweithgor o saith sefydliad academaidd a pholisi ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon** y fersiwn newydd, gyfredol o'r fframwaith Dangosyddion Integreiddio.

I gydnabod y defnydd eang, a pherthnasedd parhaus y fframwaith yng nghyd-destun y DU ac yn rhyngwladol, mae prif siâp y fframwaith gwreiddiol wedi cael ei gadw yn yr argraffiad diwygiedig hwn gyda rhai estyniadau i'r parthau a dangosyddion newydd wedi cael eu cynnwys i adlewyrchu gwybodaeth, blaenoriaethau a setiau data cyfredol (arolygon cenedlaethol ac ystadegau swyddogol y llywodraeth). Mae'r fframwaith wedi ei ddylunio i gael ei ddefnyddio'n eang gan ymarferwyr a llunwyr polisi ar sawl lefel. Mae'n darparu iaith a dealltwriaeth a rennir ar gyfer gweithredwyr gwahanol sy'n ymwneud ag integreiddio - gan gynnwys llywodraethau lleol a chenedlaethol, y gymdeithas sifil, busnesau, cymunedau ac unigolion - i ddeall sut beth yw da mewn perthynas ag integreiddio a sut y gellir cyflawni hynny yn eu cyd-destun lleol penodol drwy ymdrechion ar y cyd. Bwriedir iddo fod yn hyblyg i ganiatáu ar gyfer defnydd cyd-destunol. Ar yr un pryd, mae'n darparu strwythur clir a dangosyddion posibl a fydd yn cefnogi casglu data mwy cyson i alluogi cymariaethau gwell ac ychwanegiadau parhaus i'r ddealltwriaeth yn lleol a chenedlaethol o beth sy'n gweithio yng nghyd-destun integreiddio.

Mae'r fframwaith a'r dangosyddion ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno datblygu ymyriadau llwyddiannus ar gyfer integreiddio, a chynyddu eu dealltwriaeth o brofiadau ohono. Mae'r 14 parth integreiddio a adnabuwyd yn y fframwaith yn cynnig dull yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer adeiladu strategaethau, a dylunio, gweithredu a mesur llwyddiant ymyriadau ymarferol. Mae pob parth wedi ei gysylltu â set gynhwysfawr o fesurau ar gyfer canlyniadau a gweithredu priodol.

Mae'r ddogfen hon, felly, wedi ei dylunio ar gyfer defnydd gan ystod eang o ymarferwyr a llunwyr polisi y mae gan eu gweithgareddau'r potensial i ddylanwadu ar integreiddio, er enghraifft:

- Cyrff rhanbarthol megis Partneriaethau Mudo Strategol sy'n gyfrifol am ddarparu a sicrhau effeithiolrwydd tomen gynhwysfawr o fesurau i hybu integreiddio.
- Prosiectau lleol sy'n darparu cymorth a gwasanaethau wedi eu targedu i fynd i'r afael ag agwedd benodol ar integreiddio - ac sy'n awyddus i arddangos effaith eu gwaith ar integreiddio yn ei gyfanrwydd.
- Sefydliadau ariannu sy'n fframio ac yn gwerthuso'r defnydd o gyllid i hybu integreiddio.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi, asesiad o anghenion a chynnydd mewn cyd-destunau lleol a chenedlaethol gwahanol.

ADRAN 4

Strwythur y fframwaith

4. Strwythur y fframwaith

Mae'r fframwaith Dangosyddion Integreiddio wedi ei strwythuro o amgylch 14 parth allweddol y mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod o bwys canolog i integreiddiad.

Ffigwr 1: Fframwaith Dangosyddion Integreiddio
Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio pob un o'r pedwar pennawd a'r parthau a geir ynddynt, ac yn egluro pam y strwythurir y fframwaith yn y ffordd hon. Mae'n bwysig nodi bod cynnydd yn y parthau hyn yn dibynnu ar gyfraniad aelodau'r cymunedau sy'n derbyn a sefydliadau lleol yn ogystal â'r newydd-ddyfodiaid, boed yn ffoaduriaid, yn fudwyr eraill neu'n grwpiau eraill sy'n newydd i'r gymuned.



4.1 Dynodwyr a Moddau

Mae pum parth o fewn y fframwaith o dan y pennawd Dynodwyr a Moddau: Gwaith, Tai, Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Hamdden. Mae'r parthau hyn yn cynrychioli'r cyd-destunau y gall integreiddiad ddigwydd ynddynt yn ogystal â meysydd pwysig o gyrhaeddiad sy'n cael eu cydnabod yn eang yn hollbwysig i'r broses integreiddio.

Mae adnabod y parthau hyn yn amlygu meysydd pwysig o weithgarwch cyhoeddus lle gellir cynllunio cymorth ar gyfer integreiddio, ac asesu, i raddau ei ganlyniadau.

Fodd bynnag, ni ddylid ystyried cyflawni yn un o'r parthau hyn, fel 'canlyniad' integreiddio yn unig, maent hefyd yn 'foddau' i'r perwyl hwnnw yn ogystal. Felly, mae'r pum parth yma yn arddangos cynnydd tuag at integreiddio ac yn cefnogi cyflawni ym meysydd eraill. Er enghraifft, mae mynediad at - a chynnydd o fewn - y system addysg yn gweithredu fel dynodwr arwyddocaol o integreiddio, a hefyd fel modd allweddol tuag at integreiddio, megis creu cyfleoedd sylweddol ar gyfer gwaith, ar gyfer cysylltu a chymysgu cymdeithasol ehangach, ar gyfer dysgu iaith a chyfnewid diwylliannol.

Yn gryno, mae'r parthau hyn yn **ddynodwyr**, oherwydd mae llwyddiant yn y parthau hyn yn arwydd o ganlyniadau integreiddio cadarnhaol; a **moddau** oherwydd mae llwyddiant yn y parthau hyn yn debygol o gynorthwyo'r broses integreiddio ehangach.

Mae mesurau o ymdeimlad o berthyn, ynghyd â lles seicolegol ac emosiynol, wedi eu hymgorffori drwy'r parthau. Mae hyn yn adlewyrchu eu rôl graidd ar draws pob agwedd ar integreiddio.

4.2 Cysylltiadau Cymdeithasol

Mae tri pharth o fewn y fframwaith o dan y pennawd Cysylltiadau Cymdeithasol: Pontydd Cymdeithasol, Rhwymau Cymdeithasol a Chysylltiadau Cymdeithasol. Gyda'i gilydd maent yn cydnabod pwysigrwydd perthnasoedd i'n dealltwriaeth o'r broses integreiddio ac yn ymhelaethu ar wahanol fathau o berthnasoedd sy'n cyfrannu at integreiddio.

Er y gellir ystyried y pum parth a amlinellir o dan Ddynodwyr a Moddau fel 'wyneb cyhoeddus' integreiddio, nid ydynt yn darlunio'n llawn beth y gall integreiddio ei olygu i bobl wrth iddynt ei brofi yn eu bywydau. Mae'r parthau yn y grŵp Cysylltiadau Cymdeithasol yn pwysleisio pwysigrwydd perthnasoedd rhwng pobl yn allweddol i ddiffinio a chyflawni integreiddio.

A siarad yn fras, mae'r pennawd hwn hefyd yn cydnabod y gall perthnasoedd cymdeithasol hwyluso mynediad unigol ac ar y cyd at adnoddau. Gellir ystyried rhwydweithiau o berthnasoedd a nodweddir gan ymddiriediaeth a dwyochredd fel cynhyrchwyr 'cyfalaf' oherwydd eu bod yn galluogi pobl i ddefnyddio a chyfnewid adnoddau (Coleman, 1988; Portes, 1988; Putnam, 2000). Fodd bynnag, gall rhwydweithiau cymdeithasol greu rhwygiadau ac anghydraddoldebau o ganlyniad yn rhannol i wahaniaethau mewn mynediad at bŵer a/neu adnoddau (Bourdieu, 1986).

Mae'r fframwaith yn defnyddio iaith cyfalaf cymdeithasol i wahaniaethu rhwng tair ffurf wahanol ar gysylltiad neu berthynas cymdeithasol: rhwymau, pontydd[1] a chysylltiadau,[2] sydd i gyd yn hanfodol bwysig i integreiddio llwyddiannus. Mae'r iaith hon wedi cael ei defnyddio'n helaeth ym mholisi ac arferion integreiddio ac fe'i cydnabyddir yn eang. Fodd bynnag, nid yw defnyddio'r categorïau hyn yn y fframwaith Dangosyddion Integreiddio yn tybio bod cysylltiadau cymdeithasol o reidrwydd, yn cynyddu mynediad at adnoddau. Mae'r fframwaith yn cyfarwyddo'r defnyddiwr i fesur cysylltiadau cymdeithasol yn ogystal â mesur mynediad at adnoddau allweddol eraill ar wahân. Yn y ffordd hon, ni ragdybir bod patrymau o gysylltiadau cymdeithasol a mynediad at adnoddau yn dilyn o un i'r llall, ond yn bwysicach, yn amlygu dibyniaeth integreiddio ar ddatblygu pob un o'r perthnasoedd

1 Putnam et al. (1993)

2 Szreter ac Woolcock (2004)

hyn yn gyfochrog.

Mae'r tri math o berthynas fel a ganlyn:

A. Rhwymau cymdeithasol: cysylltiadau ag eraill gydag ymdeimlad o hunaniaeth a rennir

Dadleuir bod y rhwymau cryfaf yn cael eu ffurfio rhwng pobl sy'n uniaethu fwyaf â'i gilydd. Felly, er enghraifft, mae perthnasoedd teuluol yn gyffredinol yn creu rhwydweithiau o rwymau â lefelau uchel o ymddiriediaeth a dwyochredd. Byddai cyfeillgarwch agos sy'n arddangos lefelau uchel o ymddiriediaeth a dwyochredd tebyg yn cael ei ddisgrifio fel rhwym. Fodd bynnag, mae'n bwysig peidio â rhagdybio bod grwpiau sy'n rhannu nodweddion allweddol - megis ethnigrwydd, ffydd neu gefndir cenedlaethol - i gyd yn elwa o berthnasoedd rhwymo. Er enghraifft, arsylwir yn aml gan y bobl hynny sy'n gweithio â ffoaduriaid newydd fod tensiynau gwleidyddol dwfn yn gallu codi rhwng pobl o'r un wlad enedigol. Mae cyfnewid cymorth ymarferol ac emosiynol yn nodweddu rhwymau cymdeithasol a gallant ddarparu hyder a diogelwch i unigolion a grwpiau sy'n ofynnol ar gyfer integreiddio. Mae diffyg rhwymau cymdeithasol yn nodweddu unigrwydd cymdeithasol.

B. Pontydd cymdeithasol: cysylltiadau â phobl o gefndir gwahanol

Mae'r perthnasoedd hyn yn cysylltu pobl neu grwpiau amrywiol. Er nad yw'r un lefelau uchel o ymddiriedaeth â rhwymau cymdeithasol yn nodweddu pontydd cymdeithasol, mae ymddiriedaeth ddigonol yn eu nodweddu sy'n galluogi pobl i ryngweithio a chyfnewid adnoddau. Mae pontydd cymdeithasol yn darparu llwybr ar gyfer rhannu adnoddau a chyfleoedd rhwng pobl sy'n wahanol. Drwy'r cymysgu, adeiladir ymddiriedaeth a dwyochredd. Mae diffyg pontydd cymdeithasol, er efallai fod rhwymau cryf yn bresennol o fewn grŵp gwahanedig yn nodweddu gwahanu cymdeithasol.

C. Cysylltiadau cymdeithasol: cysylltiadau â sefydliadau, gan gynnwys gwasanaethau llywodraeth leol a chanolog

Mae rhwymau a phontydd yn disgrifio perthnasoedd rhwng unigolion o fewn y gymdeithas a gellir eu hystyried yn berthnasoedd 'llorweddol'. Mae cysylltiadau cymdeithasol yn cyfeirio at berthnasoedd 'fertigol' rhwng pobl a sefydliadau'r gymdeithas y maent yn byw ynddi. I fyw fel aelod llawn o gymdeithas, mae'n angenrheidiol i gael mynediad at hawliau neu wasanaethau a chyflawni rhwymedigaethau. Mae cysylltiadau cymdeithasol yn cysylltu'r unigolyn â strwythurau grym cymdeithas i'r ddau gyfeiriad, fel cyfrannwr (e.e. drwy bleidleisio) yn ogystal â fel buddiolwr (e.e. pan mae arno angen mynediad at gymorth). Gall diffyg cysylltiadau cymdeithasol nodweddu ymdeimlad o ddieithrwch.

4.3 Hwyluswyr

Mae pum parth o fewn y fframwaith o dan y pennawd Hwyluswyr: Iaith, Diwylliant, Sgiliau Digidol, Diogelwch a Sefydlogrwydd. Maent yn cynrychioli ffactorau hwyluso allweddol ar gyfer y broses integreiddio.

Adnabyddir pum maes allweddol o gymhwysedd, y mae pob un yn cael ei ystyried yn angenrheidiol i bobl allu integreiddio'n effeithiol i'r gymuned ehangach. Mae'r fframwaith newydd yn cynrychioli Iaith a Diwylliant fel dau barth ar wahân i sicrhau bod pob un yn cael ei fesur yn ei hawl ei hun.

Mae ychwanegu Sgiliau Digidol yn cydnabod datblygiadau arwyddocaol o ran technolegau cyfathrebu newydd sydd wedi digwydd ers cyhoeddi'r dangosyddion gwreiddiol yn 2004. Mae mynediad at bobl, gwasanaethau a hawliau, yn aml yn awr, naill ai'n ddibynnol ar dechnoleg, neu'n cael ei hwyluso ganddi. Er enghraifft, cynigir y gellid mesur mynediad personol i'r rhyngrwyd (gan gynnwys data symudol) i gyfrif am ei bwysigrwydd wrth gael mynediad at wasanaethau a hawliau.

Mae ymchwil ac arferion yn cadarnhau pwysigrwydd ymdeimlad o ddiogelwch personol a sefydlogrwydd cymdeithasol hefyd, wrth alluogi pobl i ymgysylltu â gwasanaethau a gyda phobl eraill er mwyn sefydlu eu bywydau ac integreiddio. Caiff y rhain, o'r herwydd eu cynnwys fel parthau ar wahân. Gallai hyn gynnwys teimladau o ddiogelwch wth gerdded ar eich pen eich hun a'r digwyddiadau o droseddau casineb yr adroddir amdanynt.

4.4 Seiliau

Mae un parth o fewn y fframwaith o dan y pennawd Seiliau: Hawliau a Chyfrifoldebau. Mae hwn yn cynrychioli'r sail y sefydlir disgwyliadau a rhwymedigaethau cyffredin sy'n cefnogi'r broses o integreiddio arni.

Mae syniadau o ddinasyddiaeth a chenedligrwydd - a'r hawliau cysylltiedig - yn siapio'n sylfaenol, beth sy'n cyfrif fel integreiddio mewn cyd-destun penodol. Mae cael dinasyddiaeth ac arfer yr hawliau a'r gweithredoedd a ddaw yn sgil hynny (megis pleidleisio) ynddo'i hun yn darparu sylfaen bwysig ar gyfer integreiddiad unrhyw unigolyn mewn cymdeithas.

Amlyga ymchwil hefyd fod agweddau aelodau'r cymunedau sy'n derbyn tuag at grwpiau megis mudwyr neu ffoaduriaid, ac aelodau o grwpiau lleiafrifol tuag at y broses integreiddio ei hun, yn cael eu dylanwadu gan ganfyddiadau o gyfrifoldebau, hawliau a breintiau. Mae'r parth hwn yn cyfuno'n glir gyfrifoldebau a hawliau, gan gydnabod bod rhaid mesur y ddau, o safbwynt grwpiau megis mudwyr yn ogystal â'r cymunedau sy'n derbyn. Yma defnyddir y term cymunedau 'sy'n derbyn' i gydnabod bod cymunedau yn lleoedd o newid gyda haenau o fudo gan boblogaethau mudol sydd newydd gyrraedd a phoblogaethau lleiafrifol mwy sefydlog, sy'n arwain at gymunedau sy'n derbyn amrywiol.

ADRAN 5

Egwyddorion allweddol sy'n sail i'r fframwaith

5. Egwyddorion allweddol sy'n sail i'r fframwaith

5.1 Mae integreiddio yn amlddimensiynol

Nod y fframwaith Dangosyddion Integreiddio yw cyflwyno dealltwriaeth gyfunol o'r profiadau o integreiddio. Mae'n adnabod y ffactorau y gwyddys eu bod yn cyfrannu at integreiddio. Mae'r rhain yn cwmpasu mynediad at adnoddau a chyfleoedd yn ogystal â chymysgu cymdeithasol. Mae'n bwysig cydnabod na ellir mesur integreiddio gan ddefnyddio dangosyddion o un parth unigol, ddim mwy nag y byddai strategaeth neu gynllun integreiddio llwyddiannus yn canolbwyntio'n unig ar weithgarwch mewn un parth unigol - i fesur integreiddio mae angen defnyddio dangosyddion o bob un o'r parthau.

Yn ei ffurf bresennol, nid yw'r fframwaith yn ceisio nodi perthnasoedd achosol rhwng parthau, ac nid yw ychwaith yn ceisio awgrymu proses integreiddio syml. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd defnyddio'r ymagwedd strwythuredig gan fanteisio ar agweddau o bob parth wrth ddatblygu cynlluniau i gefnogi integreiddio - gan gynnwys casglu data systematig gan ddefnyddio'r dangosyddion argymelledig - yn cyfrannu at ddealltwriaeth well o'r rhyng-gysylltiadau cymhleth rhwng yr holl barthau. Mae'n bwysig pwysleisio na ddylai'r ffordd y cyflwynir y parthau awgrymu hierarchaeth. Nid yw'r un parth yn bwysicach nag unrhyw barth arall, ac nid oes unrhyw awgrym ychwaith y dylai integreiddio ddigwydd mewn trefn benodol.

5.2 Mae integreiddio yn amlgyfeiriol

Mae ffocws ar integreiddio yn bodoli yng nghyd-destun amrywiaeth a chydnabod gwahaniaethau. Mae'r fframwaith hwn felly yn derbyn bod integreiddio yn broses o 'gymysgu' drwy ryngweithio rhwng pobl sy'n amrywiol mewn sawl ffordd, nid yn unig ar sail ethnigrwydd neu wlad enedigol. Nid yw'r fframwaith hwn **yn rhagdybio** bodolaeth cymdeithas unffurf lle 'cyflwynir', o bosibl, grŵp lleiafrifol. I'r gwrthwyneb, mae'r fframwaith Dangosyddion Integreiddio yn seiliedig ar ragdybiaeth bod cymdeithas yn cynnwys pobl sy'n amrywio mewn ffyrdd gwahanol a bod pobl wahanol a all deimlo eu bod ar y cyrion mewn rhai cyd-destunau yn fwy grymus mewn eraill - o bosibl, ond nid yn unig, yn adlewyrchu'r nodweddion sydd ganddynt ar draws ffactorau megis oedran, dosbarth cymdeithasol, statws cyflogaeth, addysg, rhywioldeb, rhywedd ac anabledd. Gall hyn greu darlun integreiddio cymhleth, yn enwedig mewn dinasoedd lle mae amrywiaeth uwch gyda llawer o haenau o fudo ac amrywiaeth.

Er yr ystyrir yn aml fel rhywbeth y dylid ei gyflawni, mae'n anodd diffinio'n union beth ddylid ei gyflawni er mwyn aros yn gymdeithas sydd wedi ei hintegreiddio'n dda. Yn hytrach, mae integreiddio yn gofyn am ymaddasu a newid gan bawb sy'n gysylltiedig heb danseilio eu hunaniaeth wreiddiol. Er mwyn i integreiddio lwyddo, mae angen i fudwyr, aelodau'r cymunedau sy'n derbyn a darparwyr gwasanaethau i gyd hwyluso proses o newid. Felly, mae unigolion sy'n gweithredu drostynt eu hunain, cymunedau lleol a sefydliadau lleol yn allweddol i integreiddio ac yn ffurfio'r cyd-destun ar gyfer y fframwaith cyfan. Er enghraifft, mae'r gwaith o ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol amrywiol yn dibynnu ar barodrwydd cymunedau sy'n derbyn a newydd-ddyfodiaid fel mudwyr neu ffoaduriaid i ymgysylltu â'i gilydd. Gallai fod yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau adnabod gwahaniaethau newydd o fewn eu cymuned gyfnewidiol o ddefnyddwyr ac addasu eu darpariaeth gwasanaethau neu ddulliau yn unol â hynny. Yn ogystal, mae angen i lunwyr polisi lleol a chymunedau hwyluso rhannu gwybodaeth gyda newydd-ddyfodiaid am normau ac arferion ymddygiadol a diwylliannol lleol.

5.3 Mae integreiddio yn gyfrifoldeb ar y cyd

Mae'r fframwaith newydd hwn yn ceisio mynd i'r afael â rolau'r holl gyfranogwyr yn y prosesau integreiddio. Mae'n ymhelaethu ar gyfrifoldebau gan gynnwys camau gweithredu y gall llywodraeth leol a chenedlaethol eu cymryd i hybu integreiddio yn ogystal â chyfrifoldebau newydd-ddyfodiaid megis mudwyr neu ffoaduriaid eu hunain ac aelodau'r cymunedau sy'n derbyn. Er enghraifft, gallai hynny gynnwys disgwyliad bod y llywodraeth yn darparu cymorth i newydd-ddyfodiaid i'w helpu i ddeall y gyfraith a'u cyfrifoldebau cyfreithiol. Yn yr un modd, gallai cyflogwyr hwyluso cyfleoedd gwaith, meithrin sgiliau, dysgu iaith, cysylltiadau cymdeithasol a llwybrau eraill at integreiddio. Gallai newydd-ddyfodiaid a chymunedau sy'n derbyn, gydweithio i ddarparu a manteisio ar gyfleoedd eraill i hybu integreiddio. Mae'r cyd-gyfrifoldeb hwn yn bwysig i sicrhau bod newydd-ddyfodiaid yn gallu cefnogi ac eirioli drostynt eu hunain a'u teuluoedd ar draws y parthau integreiddio, gan gynnwys sicrhau mynediad at waith, addysg, iechyd etc.

5.4 Mae integreiddio yn benodol ei gyd-destun

Ni ellir ond mesur integreiddio mewn perthynas â phoblogaethau penodol mewn cyd-destun penodol ac o fewn amserlen benodol. Felly, ni ellir pennu targedau cyffredinol fel dangosyddion integreiddio 'llwyddiannus' a all fod yn addas i bob cymuned a phob cyfnod. Yn y pen draw, gellid dadlau bod integreiddio wedi cael ei gyflawni lle mae yna gydraddoldeb rhesymol rhwng cyfleoedd, profiadau a chanlyniadau i bobl wahanol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o leoliadau ymarferol lle caiff integreiddio ei fesur, mae fwyaf defnyddiol i fesur cyfradd cynnydd wrth gydnabod y bydd cynnydd yn debygol o fod yn arafach i'r rhai hynny â sawl anfantais. Gellir mesur newid dros gyfnodau gwahanol o amser, mewn cyfuniadau gwahanol o barthau, ac o fewn a rhwng poblogaethau gwahanol. Wrth ddefnyddio'r dangosyddion hyn rydym yn hyrwyddo'r defnydd o fesurau llinell sylfaen cyn unrhyw ymyriad integreiddio mewn unrhyw gyd-destun penodol. Yna, dylid ailadrodd y mesuriad yn yr un cyd-destun er mwyn arsylwi'r lefel o gynnydd a wneir dros amser.



ADRAN 6

Sut i ddefnyddio'r Fframwaith Dangosyddion Integreiddio

6. Sut i ddefnyddio'r Fframwaith Dangosyddion Integreiddio

Mae'r rhestr dangosyddion yn ymhelaethu ar ddulliau mesur canlyniadau o fewn pob un o'r parthau. Fodd bynnag, mae grwpiau gwahanol yn debygol o fod angen cymorth penodol ac efallai mesurau arbennig er mwyn cyflawni canlyniadau tebyg. I'r perwyl hwn, mae dangosyddion arfer da ar lefel leol a chenedlaethol wedi eu cynnwys hefyd.

6.1 Dangosyddion canlyniadau ac arfer da

Gwahaniaethir rhwng dangosyddion canlyniadau ac arfer da lleol a chenedlaethol:

- **Mae dangosyddion canlyniadau** yn mesur newidiadau ym mywydau pobl a all adlewyrchu cynnydd o ran integreiddio, e.e. cael swydd neu gyflawni lefel benodol o addysg.
  - Gellir casglu'r mesurau llwyddiant hyn ar lefel unigol a'u crynhoi hefyd i lywio dadansoddi a pholisi integreiddio lleol a chenedlaethol.
- **Mae arfer da lleol a chenedlaethol** yn nodi arferion a strwythurau ar lefel lleol a chenedlaethol y mae'n hysbys eu bod yn sail i integreiddio effeithiol.
  - Ymhlith y gweithredwyr ar lefel leol a all ddefnyddio'r arferion hyn mae awdurdodau lleol, darparwyr addysg, sefydliadau a grwpiau cymunedol.
  - Byddai gweithredwyr ar lefel genedlaethol yn cynnwys llywodraethau cenedlaethol, sefydliadau anllywodraethol a rhyngwladol, a'r cyfryngau cenedlaethol.

Mae'r ddau fath o ddangosyddion yn bwysig i fonitro integreiddio.

Wrth awgrymu mesurau penodol, lle bo'n bosibl cyfeirir at setiau data ac offer mesur sydd eisioes yn bodoli (o fewn cyd-destun y DU). Lle bo'n bosibl, mae dangosyddion sydd eisoes yn ymddangos mewn setiau data rhyngwladol wedi eu cynnwys i alluogi cymariaethau rhyngwladol. Fodd bynnag, mae rhai mesurau a awgrymir yn newydd ac mae'n bosibl nad ydynt wedi cael eu datblygu, heb sôn am gael eu casglu'n rheolaidd, ac efallai y bydd angen datblygu offer mesur newydd. Dylid nodi hefyd, lle mae mesurau penodol yn dangos cynnydd mewn mwy nag un parth, eu bod wedi cael eu hailadrodd ym mhob un o'r parthau lle maent yn gweithredu fel dangoswyr defnyddiol.

Mae symbolau wedi cael eu defnyddio i ddangos y math o ddata sydd ar gael yn gyhoeddus ar gyfer pob dangosydd:	
■	Data gweinyddol cyhoeddedig gan gorff neu sefydliad cyhoeddus
▲	Data arolwg cyhoeddedig gan samplau cynrychioladol cenedlaethol (rhanbarthau'r DU)
★	Ffynonellau data amrywiol neu gwestiynau arolwg profedig eraill y gellid eu defnyddio i fesur dangosydd
□	Ni ellid lleoli data ar gael yn gyhoeddus

6.2 Dewis beth i'w fesur

Mae'r fframwaith Dangosyddion Integreiddio yn adnabod set o 14 parth, y mae pob un ohonynt yn greiddiol i integreiddio. Felly, mae hi'n ddealledig wrth fesur integreiddio, ei bod hi fel rheol yn ofynnol i fesur canlyniadau ym mhob un o'r 14 parth hyn.

Nid yw'r dangosyddion a restrir wedi eu bwriadu i fod yn orfodol mewn unrhyw ffordd. Bydd y dewis o ba fesurau i'w casglu yn cael ei lywio gan y blaenoriaethau ym mhob cyd-destun, y cwestiynau allweddol i'w hateb, yn ogystal â'r cyfyngiadau o ran adnoddau ac ymarferol wrth gasglu a thrin data.

Awgrymir yn gryf y dylai darparwyr gwasanaethau wedi eu targedu, penodol (e.e. darparwyr tai, darparwyr iaith neu gymorth cyflogaeth) ddefnyddio ystod o ddangosyddion ar draws y fframwaith cyfan os ydynt yn ceisio mesur eu heffaith ar integreiddio. Er enghraifft, gall rhaglen addysgu iaith fesur effaith ehangach ei gwaith nid yn unig drwy fesur cynnydd o ran sgiliau iaith, ond hefyd drwy fesur newidiadau yn y rhwydwaith o gysylltiadau cymdeithasol sydd gan y cyfranogwyr, eu gallu i lywio'r system iechyd a dod o hyd i waith. Bydd defnyddio dangosyddion o bob rhan o'r fframwaith yn sicrhau y gellir arsylwi integreiddio yn ehangach. Dim ond mesur y ddarpariaeth gwasanaethau uniongyrchol fydd dewis dangosyddion o'r parth darparu gwasanaethau penodol, yn hytrach nag effaith y gwasanaeth hwn ar agweddau eraill ar integreiddio. I sefydliadau neu wasanaethau cyhoeddus sy'n awyddus i gael effaith ar integreiddio ar draws ystod o wasanaethau, bydd edrych ar y fframwaith cyfan ac ymgorffori agweddau o bob un o'r 14 parth yn darparu dull mwy cyflawn a chynhwysfawr.

Rydym wedi nodi bod integreiddio yn amlgyfeiriol ac yn cynnwys unigolion amrywiol yn ogystal â strwythurau cymdeithasol. Felly, efallai ei fod yn ddefnyddiol i bawb sydd â chyfrifoldeb dros integreiddio i fod yn rhan o'r broses o ddewis y mesurau integreiddio o fewn y fframwaith, sy'n briodol i'w hamgylchiadau penodol. Argymhellir y dylid mynd i'r afael â mesur integreiddio fel proses gyd-gynhyrchu,[3] lle bynnag y bo'n bosibl, gan gynnwys aelodau o'r gymdeithas, darparwyr gwasanaethau a llunwyr polisi ar y cyd.

6.3 Mesur newid

Mae teithiau integreiddio yn gymhleth ac yn amrywiol eu natur. Dengys ymchwil fod unigolion a grwpiau gwahanol yn integreiddio ar gyflymdra gwahanol, ar hyd taflwybrau gwahanol; mae cynnydd yn aml yn newid ar gyflymdra cyflymach mewn rhai parthau nag eraill, ac y gellir arsylwi atchweliad, yn ogystal â chynnydd. Er enghraifft, mae ffoaduriaid sydd â Saesneg fel ail iaith yn llai tebygol o gael cyflogaeth sy'n gymesur â'u sgiliau a chymwysterau yn ystod y blynyddoedd cyntaf o adsefydlu yn y wlad sy'n croesawu, lle gall ffoaduriaid o wlad Saesneg ei hiaith gael cyflogaeth yn gynt. Gall pobl hefyd gael eu hansefydlogi gan yr angen i symud tŷ a chymdogaeth, a gall amharu o'r fath ansefydlogi cysylltiadau cymdeithasol a llesteirio mynediad at leoliadau gwaith ac ysgol sefydledig. I'r perwyl hwn, nid yw'r dangosyddion hyn yn nodi targedau nac amserlenni penodol ar gyfer pryd y dylid cyflawni canlyniadau, ac mae angen ystyried unrhyw leoliad targed yn ofalus.

Bydd y fframwaith a'r dangosyddion yn arbennig o werthfawr pan fyddant yn cael eu defnyddio i fesur newid. Dylai gwerthusiadau o unrhyw ymyriad fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r mecanweithiau newid y mae disgwyl i'r ymyriad fynd drwyddynt er mwyn sicrhau effaith. Gellir defnyddio'r dangosyddion gyda methodoleg theori newid[4] i sefydlu nodau (y 14 parth integreiddio lefel uchel), lle mae tybiaethau a wneir am achosiaeth yn ymwneud â chyrraedd y nodau hyn a'r dangosyddion canlyniad priodol wedi eu nodi'n glir, gan alluogi ar gyfer mesur cynnydd yn erbyn y nodau ac i berthnasau achosol gael eu hailystyried lle nad oes tystiolaeth i'w cefnogi mwyach.

Mae defnyddio'r dangosyddion yn y ffordd hon, yn gyntaf yn gofyn am gasglu data llinell sylfaen i fesur cynnydd yn ei erbyn. Dylid cynnal mesuriadau eraill ar bwyntiau addas i gofnodi newidiadau. Mewn rhai parthau, mae'n bosibl y bydd cynnydd yn amlwg o fewn rhai wythnosau neu fisoedd (er enghraifft dysgu iaith sylfaenol a datblygu cyfeillion cychwynnol). Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion bydd hi'n fuddiol monitro newid am y cyfnod hiraf posibl.

6.4 Gwneud cymariaethau

Bwriedir i'r Dangosyddion Integreiddio gefnogi'r gwaith o gasglu data systematig i lywio polisi ac arferion mewn cyd-destunau lleol, galluogi cymariaethau rhwng ardaloedd lleol a darparu data y gellid ei goladu i helpu i adeiladu tystiolaeth a rennir ynglŷn â beth sy'n gweithio i lywio polisi yn lleol a chenedlaethol. Mae'n bosibl y bydd gan weinyddiaethau datganoledig lawer o bolisïau, deddfwriaeth, a dulliau o ddarparu gwasanaeth a chymorth gwahanol, yn ogystal â chasgliadau data gwahanol o bryd i'w gilydd, a fydd yn effeithio ar y ffyrdd y defnyddir y Dangosyddion Integreiddio.

Mae'r dangosyddion wedi eu dylunio i hwyluso'r gwaith o gymharu profiadau a chanlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol.[5] Gellir defnyddio dulliau mesur

3 Mae cyd-gynhyrchu yn cyfeirio at ymgysylltiad gweithredol grwpiau â'r gwaith o ddylunio, datblygu a gwerthuso gwasanaethau ac ymchwil wedi ei anelu at ddiwallu anghenion eu cymdeithas. Mae Temple & Moran (2006) yn darparu canllaw defnyddiol ar gyfer cyd-destun sy'n benodol i ffoaduriaid.

4 Gweler y Ganolfan ar gyfer Theori Newid (2015)

5 Megis: rhwng mudwyr a phreswylwyr sefydledig yn lleol; newydd-ddyfodiaid o gefndiroedd gwahanol; neu grŵp eithriedig penodol a'r boblogaeth gyffredinol.

canlyniadau i gymharu data ar gyfer grwpiau megis mudwyr neu ffoaduriaid gyda charfanau cyfatebol yn y boblogaeth leol. Ni phennir unrhyw dargedau o fewn y fframwaith hwn gan y dylai targedau gael eu pennu yn lleol o fewn y cyd-destun penodol y bwriedir iddynt gael eu defnyddio.

Yn y tymor hir, dylai disgwyliadau ar gyfer grwpiau o'r fath fod yn gysylltiedig â disgwyliadau ar gyfer aelodau eraill o'r boblogaeth leol. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd cynnydd mewn parthau amrywiol yn dibynnu i ryw raddau ar amgylchiadau ar lefel bersonol a lleol. Er enghraifft, i fudwr, gall amodau teitheb megis y cyfnod o amser y caniateir iddo aros yn y DU effeithio ar ei gynnydd mewn amrywiaeth o fesurau. Mae'n debygol y bydd disgwyliadau gwahanol i bobl ifanc o'i gymharu â'u rhieni neu bobl hŷn. O ganlyniad, dylai'r defnydd o ddangosyddion fod yn ystyriol o amrywiaeth o fewn a rhwng grwpiau.

Defnyddir canrannau yn aml i gymharu cynnydd o'i gymharu ag unigolion eraill neu boblogaeth er mwyn adnabod y cynnydd a wneir. Nid yw'r mesurau wedi eu bwriadu i awgrymu y bydd yr holl gyfranogwyr angen neu'n dymuno cyflawni'r canlyniad a awgrymir. Er enghraifft, gellir defnyddio'r dangosydd sy'n nodi'r '% o bobl ifanc sy'n sicrhau mynediad at addysg drydyddol' i gymharu cyfraddau rhwng grwpiau megis pobl ifanc sy'n ffoaduriaid a phobl ifanc yn y cymunedau sy'n derbyn, ond nid yw o reidrwydd yn awgrymu bod addysg drydyddol yn addas i bawb.

Rôl y defnyddwyr polisi neu ymarferol o'r ddogfen hon yw ystyried yn ofalus eu dewis o boblogaethau priodol i'w cymharu. Bydd defnydd cyson o'r dangosyddion yn galluogi sefydlu targedau priodol ar gyfer poblogaethau penodol. Bydd defnydd cyson o'r dangosyddion hyn mewn cyd-destunau gwahanol a thros amserlenni gwahanol yn galluogi casglu data i gynyddu dealltwriaeth o ddisgwyliadau ynghylch yr amser sy'n ofynnol i gyrraedd canlyniadau allweddol.

Uchelgais y fframwaith Dangosyddion Integreiddio newydd yw y bydd defnydd eang o'r dangosyddion hyn yn galluogi coladu setiau data lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gynyddu dealltwriaeth a rennir o beth sy'n gweithio. Bydd data cynhwysfawr ar bob un o'r parthau yn hwyluso ymhellach yr ymchwil a'r dadansoddiad sy'n ofynnol i wella dealltwriaeth o integreiddio ei hun a chefnogi ymatebion effeithiol.

6.5 Cydnabod rhwystrau i integreiddio

Mae hefyd yn bwysig mesur i ba raddau y mae mudwyr yn cael gafael ar wasanaethau dros amser, gan gydnabod bod mwy neu hyd yn oed llai o fynediad yn gallu bod yn arwydd o gynnydd. Mae'r mesurau gwahaniaethol hyn yn ceisio adnabod y rhwystrau lluosog a chronnol y gall newydd-ddyfodiaid eu hwynebu. Er enghraifft, yn y parth gwaith, gall mudwyr wynebu problemau penodol i gael gafael ar waith â thâl pan maent angen trosglwyddo cymwysterau a phrofiad presennol a gafwyd dramor i ffurf a gydnabyddir yn eu gwlad newydd. Mae'n bosibl y bydd angen ymgyfarwyddo â diwylliannau ac arferion gwaith lleol. Yn ogystal ag wynebu rhwystrau ieithyddol a diwylliannol, efallai y bydd plant sy'n ffoaduriaid wedi colli blynyddoedd o'r ysgol, ac angen cymorth ychwanegol i gyflawni cymwysterau sylfaenol. Mae ffoaduriaid sy'n oedolion yn debygol o fod angen cymorth addysgiadol (y tu hwnt i iaith) er mwyn ailhyfforddi ac ailgymhwyso. Gall ffoaduriaid brofi problemau penodol wrth ddod o hyd i dai diogel a sefydlog yn y flwyddyn gyntaf ar ôl derbyn statws, gydag ychydig o ddewis o dai ar gael yn yr ardaloedd lle y cawsant eu cartrefu drwy gynlluniau adsefydlu. Gall hyn olygu bod rhaid iddynt symud cryn bellter oddi wrth wasanaethau arbenigol. Gall ffoaduriaid brofi anghenion iechyd penodol o ganlyniad i ddioddef trawma (yn ystod plentyndod neu oedolaeth), teithiau hir, eu gwahanu dan orfod o'u teuluoedd a ffrindiau, a cholli statws cymdeithasol. Bydd nifer wedi dioddef ymyrraeth orfodol â'u rhwydweithiau cymdeithasol, ac efallai na allant elwa o rwymau cymdeithasol mewn grwpiau sy'n rhannu eu cenedligrwydd, iaith neu ddiwylliant.

6.6 Defnyddio'r pecyn cymorth dangosyddion

Fel y nodwyd uchod, mae'r Dangosyddion Integreiddio yn cyfeirio at ystod o ddata sydd ar gael yn gyhoeddus drwyddi draw. Mae pecyn cymorth atodol wedi ei gyhoeddi law yn llaw â'r ddogfen hon sy'n darparu mwy o fanylder o ran sut i ddefnyddio'r mesurau hyn i gasglu data gyda phoblogaeth benodol a fydd yn gymharol i'r hyn sydd ar gael yn y parth cyhoeddus ar gyfer samplau enghreifftiol mwy. Gellir dod o hyd i'r pecyn cymorth yma: https://www.gov.uk/government/publications/home-office-indicators-of-integration-framework-2019

Mae data sydd ar gael gan amrywiaeth o arolygon yn y DU yn darparu enghreifftiau o ddata cymharol y gellir cyfeirio ato a'i ddefnyddio mewn dadansoddiad a gwerthusiad gan ymarferwyr a dadansoddwyr ym maes integreiddio. Gall data ar lefel genedlaethol amrywio rhwng gwledydd datganoledig (ac weithiau rhanbarthau neu ardaloedd lleol) ac felly gall ddylanwadu ar ddewisiadau o ran casglu data. Mae data ar raddfa genedlaethol hefyd yn darparu templed ar gyfer fformat cwestiynau y dylid eu holi yn eu trefn er mwyn cymharu ymatebion grwpiau targed parthed parthau integreiddio i boblogaethau ehangach. I hwyluso cymariaethau rhyngwladol, mae data o arolygon rhyngwladol a phan-Ewropeaidd wedi ei gynnwys yn y pecyn cymorth pan fo'n bosibl.

ADRAN 7

Dangosyddion Integreiddio 2019

7. Dangosyddion Integreiddio 2019

7.1 Gwaith

Mae cyflogaeth yn darparu mecanwaith ar gyfer cynhyrchu incwm ac annibyniaeth economaidd a chynnydd posibl; o ganlyniad mae'n ffactor allweddol sy'n cefnogi integreiddiad. Gall gwaith hefyd fod yn werthfawr wrth (ail)sefydlu rolau cymdeithasol sy'n cael eu parchu, gan ddatblygu iaith a chymhwysedd diwylliannol ehangach a sefydlu cysylltiadau cymdeithasol. Mae gwaith gwirfoddol yn darparu profiad gwaith gwerthfawr a'r cyfle i ymarfer iaith a sgiliau cyfathrebu ac adeiladu cysylltiadau cymdeithasol ar gyfer y rhai hynny sydd â'r hawl neu heb yr hawl i waith â thâl. Ar gyfer y rhai hynny sydd â hawl i waith gall ddarparu llwybr iddynt at waith â thal.

Dangosyddion Canlyniadau*	Data
% sy'n cymryd rhan mewn llwybrau at waith (e.e. prentisiaethau, profiad gwaith neu gynlluniau mentora/cysgodi)	▲
% (sy'n gymwys/gallu gweithio) mewn gwaith cyflogedig	▲
% a gyflogir ar lefel briodol i sgiliau, cymwysterau a phrofiad	▲
% a gyflogir ar draws ystod eang o sectorau cyflogaeth	▲
% sy'n dal mathau gwahanol o gontractau cyflogaeth (dim oriau, rhan amser; hunangyflogedig; dros dro, etc.)	▲■
% o unigolion (cymwys i weithio/gallu gweithio) sy'n defnyddio mentrau dechrau busnes cwmni menter lleol	■
% sy'n ennill cyflog blynyddol yn gymesur â'r cyfartaledd cenedlaethol	▲
% o unigolion a/neu gartrefi sy'n sefyll ar eu traed eu hunain ac yn annibynnol yn economaidd	▲
% sy'n adrodd bodlondeb gyda'u cyflogaeth bresennol	▲
% mewn gwaith di-dâl neu waith gwirfoddol	▲
Canfyddiadau o gyfleoedd cyflogaeth a rhwystrau i sicrhau cyflogaeth	▲
% sydd â chynlluniau ymddeol	★
Ymwybyddiaeth o sefydliadau, hawliau, cymorth a llwybrau at gyfranogiad allweddol	▲

Allwedd: ■ Ystadegau Swyddogol ▲ Arolwg Cenedlaethol ◘ Ni leolwyd data ★ Data Arall

*Dylai dangosyddion canlyniadau a gesglir ar lefel unigol gael eu cyfrifo a'u cymharu yn erbyn poblogaethau ehangach i ddarparu cymhariaeth leol, genedlaethol neu ryngwladol. Er mai'r nod tymor hir yw sicrhau bod y boblogaeth leiafrifol yn cyflawni'r un canlyniadau â'r boblogaeth ehangach, gellir pennu targedau interim yn unol â gwybodaeth a gynhyrchir (drwy ddefnyddio'r dangosyddion hyn) am newid disgwyliedig dros amser.
Efallai y bydd rhai dangosyddion yn gofyn i nifer o gwestiynau gael eu hateb yn effeithiol. Am ragor o arweiniad ynglŷn â sut i fesur y Dangosyddion Integreiddio gweler y pecyn cymorth atodol.
Arfer Da Lleol - arferion a strwythurau ar lefel leol sy'n hanfodol fel sail i integreiddio effeithiol
Argaeledd mentora cyflogaeth/cysgodi gwaith/profiad/cynlluniau prentisiaeth yn lleol
Cynlluniau gyda chyflogwyr i ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant (gan gynnwys grwpiau penodol gyda bregusrwydd neu anghenion penodol)
Cynlluniau gyda chyflogwyr i gynnig cymorth iaith yn y gwaith
Llwybrau polisi/atgyfeirio lleol at waith
Strategaethau lleol i gefnogi mynediad at gyflogaeth (e.e. cymorth i ddeall y farchnad swyddi a'r diwylliant gwaith lleol, cymorth gyda CVs a cheisiadau)
Strategaethau lleol i gefnogi mynediad at gyflogaeth yn y sectorau lle nad oes cynrychiolaeth ddigonol
Arfer Da Cenedlaethol - arferion a strwythurau ar lefel genedlaethol sy'n hanfodol fel sail i integreiddio effeithiol
Strategaethau i gefnogi busnesau newydd (e.e. cymorth i gael gafael ar gyllid)
Rhaglenni ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymarfer/wedi eu hyfforddi dramor i ymuno â chofrestri proffesiynol y DU, neu gael mynediad atynt e.e. meddyg meddygol, nyrs, athrawon
Cyhoeddi rhif Yswiriant Gwladol yn brydlon (NINo)
Strategaethau i alluogi cydnabod a derbyn cymwysterau addas a geir dramor, lle bo'n briodol
Polisïau i hwyluso llwybrau wedi eu teilwra at waith (gan gynnwys trosi cymwysterau presennol, rhaglenni ailgymhwyso ac atodol, a chyrsiau iaith yn benodol i'r gwaith) sy'n bodloni anghenion a dyheadau
Strategaethau i gefnogi mentora busnes ar gyfer gweithgareddau entrepreneuraidd
Polisïau i gefnogi gofal plant er mwyn galluogi mynediad at gyfleoedd gwaith

7.2 Addysg

Mae mynediad at - a chynnydd o fewn - y system addysg yn gweithredu fel dynodwr arwyddocaol o integreiddio, a hefyd fel modd allweddol tuag at y nod hwn. Mae addysg yn creu cyfleoedd sylweddol ar gyfer gwaith, ar gyfer cysylltu a chymysgu cymdeithasol ehangach, ar gyfer dysgu iaith a chyfnewid diwylliannol.

Dangosyddion canlyniadau*	Data
% sy'n cyflawni camau allweddol penodol ar lefel gynradd (neu gyrhaeddiad addysgol cyfwerth i blant rhwng 5 ac 11 oed)	■
% sy'n cyflawni pump neu ragor o raddau TGAU / Graddau Safonol ar 9-4 (A*-C) (neu gyrhaeddiad addysgol cyfwerth plant rhwng 12 ac 16 oed)	■
